



Miss Judith Jones  
Pennaeth Cynllunio a Chefn Gwlad  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
Uned 5  
Parc Busnes Triongl  
Pentrebach  
Merthyr Tudful  
CF48 4TQ

28 Chwefror 2019

Annwyl Judith,

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Ymgynghoriad Newidiadau Ffocws: Ymateb Llywodraeth Cymru**

Diolch am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar y Newidiadau Ffocws a gynigiwyd i Gynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Mater i'r Arolygydd Cynllunio a benodir fydd penderfynu a yw'r cynllun yn 'gadarn' neu beidio. Mae'r Newidiadau Ffocws arfaethedig wedi'u hystyried yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed mewn cysylltiad â'r Cynllun Adneuo ar 21 Awst 2018 ac yn unol â'r profion cadernid. Mae'r **Atodiad** amgaeedig yn cynnig ymateb manwl ynghylch a yw'r Rhestr o Newidiadau Ffocws Arfaethedig yn bodloni'r hyn a godwyd yn ein sylwadau ar y ddogfen adneuo. Mae'r atodiad yn dangos pa rai o'n gwrthwynebiadau sy'n sefyll a pham, ac os yw'r Arolygydd o'r farn bod hynny'n briodol, gellir mynd i'r afael â nhw drwy'r gwrandawliadau.

Ers ymgynghori ar y Cynllun Adneuo, mae Argraffiad 10 o Bolisi Cynllunio Cymru wedi'i gyhoeddi. Bydd angen i'r awdurdod ystyried a oes unrhyw oblygiadau i'r cynllun. Fel y nodwyd yn yr Atodiad sydd ynghlwm, aethpwyd i'r afael â'r rhan fwyaf o'n gwrthwynebiadau. Dim ond mân bwyntiau o esboniad ynghylch ynni adnewyddol, diogelu glo a dyrannu safleoedd strategol sydd ar ôl. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda swyddogion y Cyngor i geisio mynd i'r afael â'r materion sy'n dal i fodoli cyn yr archwiliad.

Heb ragfarnu'r archwiliad annibynnol na chwaith pwerau'r Gweinidog i ymyrryd yn y broses, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol gydol proses y Cynllun Datblygu Lleol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Mark Newey', written in a cursive style.

**Mark Newey**  
**Pennaeth y Gangen Cynlluniau**  
**Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**

*Atodiad*

**Atodiad** i Lythyr Llywodraeth Cymru (28 Chwefror 2019) mewn ymateb i Atodlen Newidiadau Ffocws Arfaethedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Rhif y Newid	Sylwadau Llywodraeth Cymru
<b>Tai fforddiadwy</b>	
<p><b>FC3</b> Wedi mynd i'r afael â'r gwrthwynebiad</p>	<p><b>Polisi SW2: Darparu Tai Fforddiadwy</b></p> <p>Roedd ein sylwadau ar y Cynllun Adneuo yn mynnu bod yr awdurdod yn nodi'r holl angen am dai fforddiadwy, fel y nodwyd yn yr Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), er mwyn sicrhau bod gan yr ACLI ddigon o dystiolaeth i sicrhau tai fforddiadwy. Mae FC3 yn mewnosod yr angen am dai fforddiadwy fel 5,490 o unedau dros gyfnod y cynllun i'r cyfiawnhad rhesymegol i Bolisi SW2 'Darparu Tai Fforddiadwy'. Aethpwyd i'r afael â'n sylwadau ar y Cynllun Adneuo.</p>
<p><b>FC4</b> Wedi mynd i'r afael â'r gwrthwynebiad</p>	<p>Ceisiodd ein sylwadau ar y Cynllun Adneuo sefydlu'r targed tai fforddiadwy a nodir ym Mholisi SW2: Darparu Tai Fforddiadwy a sut y'i gosodwyd, er mwyn sicrhau ei fod yn seiliedig ar yr angen am dai, nid ar y ddarpariaeth. Mae FC4 yn diwygio'r targed tai fforddiadwy ym Mholisi SW2 o 261 o unedau i 251 i gyd-fynd â'r gofyniad tai. Mae'r newid hwn yn bodloni ein cynrychiolaeth Adneuo yn hyn o beth. Yn ogystal, cyflwynodd FC4 dabl newydd yn nodi cydrannau'r targed tai fforddiadwy, sy'n ychwanegu eglurder i'r cynllun, a bydd yn sicrhau monitro effeithiol fel yr argymhellir yn Llawlyfr y CDLI (Argraffiad 3). Cefnogir y Newid Ffocws arfaethedig.</p>
<p><b>FC8</b> Wedi mynd i'r afael â'r gwrthwynebiad d</p>	<p>Roedd ein sylwadau ar y Cynllun Adneuo'n ei gwneud yn ofynnol i'r ACLI nodi amseriad a graddfa dyraniadau tai ym Mholisi SW3: Dosbarthu Cartrefi Newydd yn Gynaliadwy. Mae'r Newid Ffocws arfaethedig nawr yn cynnwys amserlenni dangosol ar gyfer safleoedd a ddyrannwyd. Aethpwyd i'r afael â'n sylwadau ar y Cynllun Adneuo.</p>
<b>Tai</b>	
<p><b>FC9</b> Wedi mynd i'r afael â'r gwrthwynebiad</p>	<p><b>Tabl 2 – Cydrannau'r cyflenwad tai</b></p> <p>Galwodd ein sylwadau ar y Cynllun Adneuo am eglurder ynghylch dosbarthiad gofodol tai trwy gydran cyflenwi, er mwyn ychwanegu eglurder i'r cynllun a chynorthwyo monitro effeithiol. Mae FC9 yn cynnwys tabl wedi'i ddiweddarau yn y cyswllt hwn sy'n dilyn y templed a nodir yn Llawlyfr y CDLI (Argraffiad 3). Aethpwyd i'r afael â'n sylwadau ar y Cynllun Adneuo.</p>
<p><b>FC11</b> Yn dal i wrthwynebu'n rhannol</p>	<p><b>Polisi SW6: Ardal Adfywio Strategol Hoover</b></p> <p>Roedd ein sylwadau ar y Cynllun Adneuo yn datgan y dylai'r awdurdod fewnosod yr egwyddorion allweddol o'r prif gynllun fframwaith i'r cynllun hwn, er mwyn sicrhau datblygiad cynhwysfawr o safleoedd allweddol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni'r dull o greu lleoedd sy'n ofynnol gan PCC a sicrhau bod y safle allweddol yn cael ei weithredu a'i gyflwyno'n effeithiol yn y cynllun.</p> <p>Mae'r Newid Ffocws arfaethedig bellach yn fwy eglur ac mae'n cynnwys creu lleoedd a gofynion dylunio allweddol sy'n cael eu cefnogi. Fodd bynnag, gan i'r egwyddorion allweddol (e.e. ardaloedd defnydd tir, pwyntiau mynediad allweddol, parcio a theithio, coridorau gwyrdd) gael eu nodi yn y testun, mae LIC o'r farn ei bod yn rhesymegol i nodi'r paramedrau allweddol a'r gofynion lleol yn ofodol ar gynllun cysyniad neu gynllun sgematig. Ni fyddai hyn yn golygu gwaith ychwanegol gan fod y manylion eisoes wedi'u nodi yn y fframwaith. Dylai'r cynllun hefyd nodi'r ardal sydd ar hyn o bryd yn anaddas ar gyfer datblygiad hynod o agored i niwed oherwydd risg llifogydd. Mae'r Llawlyfr CDLI (Argraffiad 3) sy'n dod i'r fei yn nodi'r dull uwchgynllunio ac yn</p>

	esbonio sut dylid defnyddio offer creu lleoedd megis cynlluniau cysyniad ar gyfer safleoedd allweddol yn y cynllun.
<b>FC9</b>	<b>Atodiad 2 – Gwybodaeth Trywydd Tai a Chyflenwad Tir</b>  Mae'r Newid Ffocws arfaethedig yn cyflwyno'r wybodaeth trywydd tai a chyflenwad tir oddi mewn i'r cynllun, sy'n cael ei gefnogi. Aethpwyd i'r afael â'n sylwadau ar y Cynllun Adneuo.
<b>Ynni Adnewyddol</b>	
<b>FC30</b>	<b>Polisi EcW8: Ynni Adnewyddol</b>
<b>Yn dal i wrthwynebu u'n rhannol</b>	<p>Roedd ein sylwadau ar y Cynllun Adneuo yn datgan y dylid nodi'r tablau cryno gan REA (Ffigurau 12 a 13) ynghylch y potensial ar gyfer gwres a thrydan yn y cyfiawnhad rhesymegol i Bolisi ECW8 ac a gynhwysir yn y fframwaith monitro. Mae'r Newid Ffocws arfaethedig yn mynd i'r afael â'n gwrthwynebiad yn hyn o beth.</p> <p>Nodwn fod y Cyngor wedi cynhyrchu papur cefndir ychwanegol, sy'n Astudiaeth Sensitifrwydd Tirwedd manwl ar gyfer yr Ardaloedd Chwilio Solar (SD53). Mae'r gwaith hwn wedi arwain at ddileu'r ardal chwilio yn Ynysowen. Nid oes gan LIC unrhyw sylwadau yn hyn o beth. Lle'r ACLI yw cyfiawnhau'r rhagdybiaethau a wneir.</p> <p>Nid yw'r Cyngor wedi darparu unrhyw esboniad ynglŷn â'n sylwadau ar y Cynllun Adneuo oedd yn ceisio eglurder ar rai o'r rhagdybiaethau gyda'r REA, yn enwedig pam bod cysylltiad grid hygyrch 2 cilometr wedi'i ddefnyddio yn lle'r 10 cilometr safonol a ddefnyddir gan LIC ac ACLlau eraill yng Nghymru. Mae angen i'r Cyngor esbonio pam eu bod wedi dewis pellter llai na'r 10 cilometr safonol.</p>
<b>Mwynau</b>	
<b>FC32 FCM2</b>	<b>Dileu diogelu adnoddau glo eilaidd</b>
<b>Yn dal i wrthwynebu u'n rhannol</b>	<p>Cyfeiriodd ein sylwadau ar y Cynllun Adneuo (Awst 2019) at Bolisi Cynllunio Cymru <u>Drafft</u> (PCC) argraffiad 10, oedd yn mynnu bod awdurdodau yn diogelu adnoddau glo sylfaenol yn unig. Mae PCC argraffiad 10 (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018) a'r polisi'n ymwneud â diogelu glo wedi ei newid ymhellach. Nid oes angen diogelu adnoddau glo sylfaenol bellach; mae'n benderfyniad i'r ACLI.</p> <p>Mae FC32 yn dileu'r angen i ddiogelu adnoddau glo eilaidd, ond yn cadw'r angen i ddiogelu adnoddau glo sylfaenol. Nid ydym yn gwrthwynebu FC32.</p> <p>Os yw'r ACLI yn diogelu adnoddau glo sylfaenol, mae angen iddynt gynnwys polisiâu priodol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyn-echdynnu, yn eu cynllun datblygu. Nid oes angen nodi ardaloedd lle na fyddai gweithrediadau glo yn dderbyniol.</p> <p>Penderfyniad i'r ACLI yw hwn. Nid yw'r dull hwn yn mynd yn groes i PCC Argraffiad 10.</p>